# Celf Agored STORIEL - CWESTIYNAU CYFFREDIN

**Pwy sy'n gymwys i wneud cais?**

Mae'r arddangosfa yn agored i bob artist a myfyriwr 16 oed a hŷn sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru.

**Pryd a ble mae angen i ni gyflwyno ein gwaith celf?**

Tachwedd 24ain, 2025, rhwng 10.00 – 18.00 yn STORIEL, Ffordd Gwynedd, Bangor. (Gyferbyn â'r ffordd o PONTIO)

Parcio: Nifer cyfyngedig o leoedd ar gael ym maes parcio talu ac arddangos STORIEL

Gweler hefyd: Maes Parcio Aml-lawr Canolfan Siopa Deiniol, Maes Parcio Cyngor Gwynedd (a elwir yn Ganondy) a Maes Parcio Glanrafon.

**Faint o weithiau y gallaf eu cyflwyno?**

Uchafswm o 2 gwaith

**Pryd byddaf yn gwybod os yw fy ngwaith wedi'i ddewis ai peidio?**

Byddwch yn cael eich hysbysu trwy e-bost cyn Tachwedd 28ain, i ddweud os a faint o'ch gweithiau sydd wedi'u dewis, cofiwch edrych yn eich ffolder sbam am unrhyw ebyst hefyd.

**Pwy yw'r detholwr?**

Kim Atkinson yw'r detholwr gwadd eleni, gyda chefnogaeth Jeremy Yates a staff celf gweledol Storiel.

**Pryd mae angen i mi gasglu unrhyw waith heb ei ddewis?**

Oherwydd digwyddiad cerddoriaeth byw ar y safle ar Dachwedd 29ain, mae dyddiadau codi gwaith na ddewiswyd rhwng Rhagfyr yr 2il a 13eg.

**A fyddaf yn cael ad-daliad os na chaiff fy ngwaith ei ddewis?**

Na, ni ellir ad-dalu'r ffioedd cyflwyno o dan unrhyw amgylchiadau.

**Faint mae'n ei gostio i gyflwyno gwaith?**

Mae'n costio £7 y gwaith.

Mae'n costio £6 y gwaith i fyfyrwyr.

**A oes cyfyngiad maint ar gyflwyniadau?**

Oes, gellir cyflwyno gwaith celf mewn unrhyw gyfrwng nad yw'n fwy na 100cm x 100cm neu 1m2. Gellir cyflwyno gwaith ffilm gyda hyd uchaf o 5 munud, rydym yn eich cynghori i gysylltu â ni mewn da bryd cyn y dyddiad cyflwyno i drafod trosglwyddo'r ffilm. Cysylltwch â ni: storiel@gwynedd.llyw.cymru

**Rwy'n cyflwyno gwaith gosodiad gyda rhannau ar wahân, sut fyddwch chi'n gwybod sut mae wedi'i osod?**

Yn ogystal â chyflwyno eich gwaith ar y safle, gallwch hefyd anfon delweddau neu ffilm o'r gwaith wedi'i osod yn ei fan a'i le drwy e-bost at storiel@gwynedd.llyw.cymru

**A oes agoriad?**

Bydd agoriad ddydd Sadwrn 17eg Ionawr, 2026 am hanner dydd.

**Beth yw oriau'r arddangosfa?**

Cynhelir yr arddangosfa rhwng 17eg Ionawr 2026 a 21 Mawrth 2026. Oriau agor: Dydd Mawrth i ddydd Sadwrn rhwng 11yb a 5yp.

**A oes gan y lleoliad fynediad i gadeiriau olwyn?**

Oes, mae'r fynedfa ar gyfer y cyflwyno gwaith ar y llawr gwaelod. Mae'r gofod arddangos ar y llawr cyntaf gyda mynediad lifft.

**Beth os na allaf fynd â'm gwaith i Storiel ar y diwrnod cyflwyno?**

Os nad ydych chi (neu rywun ar eich rhan) yn gallu cyflwyno eich gwaith ar y diwrnod cyflwyno, gallwch gysylltu â Storiel i weld a oes posib gwneud trefniant i ollwng y gwaith ar ddyddiad fwy buan.

**Rwy’n defnyddio deunydd organig yn fy ngwaith, a oes angen i mi hysbysu Storiel ymlaen llaw?**

Os ydych yn defnyddio deunyddiau organig yn eich gwaith, rhowch wybod i Storiel cyn y dyddiadau cyflwyno.  Ni allwn dderbyn deunyddiau organig na ellir eu rhewi, oherwydd y risg o haint gan bryfed i'r casgliadau.

Cysylltu drwy ebost: storiel@gwynedd.llyw.cymru

**Nid yw gosodiadau platiau drych yn addas ar gyfer fy ngwaith, a ddylwn anfon fy ffitiadau fy hun?**

Os nad yw platiau drych yn addas, anfonwch eich ffitiadau gyda’ch gwaith ar y diwrnod cyflwyno gyda chyfarwyddiadau clir i’w gosod.

**Rwyf yn meddwl fframio fy ngwaith, a fysa unrhyw ffrâm yn gwneud?**

Gall unrhyw fath o ffrâm wneud cyn belled â'i fod yn ddigon cadarn ac nad oes unrhyw bryfed coed yn bresennol. Cofiwch fod cyflwyniad y gwaith yn cael ei asesu yn y broses ddethol hefyd.